PRIFFYRDD, CYMRU

LlC[CYF]

GORCHYMYN GWYRO PRIFFYRDD (LLWYBR TROED CYHOEDDUS 56, YR WYDDGRUG, SIR Y FFLINT) 2024

Gwnaed *[Dyddiad]*

Yn dod i rym *[Dyddiad]*

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Teitl a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwyro Priffyrdd (Llwybr Troed Cyhoeddus 56, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint) 2024 a daw i rym ar [Dyddiad].

Dehongliad

2. Yn y Gorchymyn hwn –

   ystyr "y Cyngor" ("the Council") yw Cyngor Sir y Fflint;

   ystyr "y cynllun a adneuwyd" yw'r cynllun sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Gwyro Priffyrdd (Llwybr Troed Cyhoeddus 56, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint) 2024" o dan gyfeirnod [2022-34-FP02] sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn;

   ystyr "y datblygwr" yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer; ac

   ystyr "Deddf 1990" ("the 1990 Act") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Gwyro

3. Yn ddarostyngedig i erthyglau 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi'r cam i wyro rhan o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir gan y croeslinellau rhwng pwyntiau A i B ar y cynllun a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen gwyro'r rhan hon er mwyn gallu gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar [Dyddiad] o dan gyfeirnod [Cyf] ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

4. Er boddhad rhesymol y Cyngor, bydd y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir gan y croeslinellau rhwng pwyntiau C a D ar y cynllun a adneuwyd, sef priffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980, yn briffordd y gellir ei chynnal ag arian cyhoeddus a'r Cyngor i fod yn awdurdod priffyrdd ar ei chyfer.

Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Gwyro'r Briffordd

5. Ni chaniateir gwyro'r rhan o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r gorchymyn hwn:-

   (a) hyd nes bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

   (b) hyd nes bydd y datblygwr wedi darparu cynlluniau sy'n dangos sut y bydd y briffordd yn cael ei gwyro, er boddhad rhesymol y Cyngor;

(1) 1990 c. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o, a pharagraff 24 o Atodlen 6, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19). Trwy rinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Atodlen 11, a pharagraff 30 o Atodlen 11, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau hyn bellach yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

DRAFT

(c) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol gwyro'r briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau yn ysgrifenedig i'r datblygwr bod darpariaethau (a), (b) ac (c) yr erthygl hon wedi'u cyflawni.

Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr

6. Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn gwyro'r rhan o'r briffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn gwyro'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig [dyddiad]

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

<u>Y rhan o'r briffordd sydd i'w gwyro</u>

Rhan o briffordd y cyfeirir ati fel Llwybr Cyhoeddus 56 yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint, sy'n 437.7 metr yn y man hiraf ac yn 2m yn y man lletaf, sy'n ymestyn o bwyntiau A i B ar y cynllun a adneuwyd.

ATODLEN 2

(Bras amcan yw pob mesuriad)

<u>Y rhan o'r briffordd sydd i'w darparu</u>

Llwybr troed i'r de o Waith Sment Padeswood, Ffordd Caer, Yr Wyddgrug CH7 4HB sy'n 385.3 metr yn y man hiraf ac yn 2 fetr yn y man culaf, yn ymestyn o bwyntiau D i C ar y cynllun a adneuwyd.

ATODLEN 3

<u>Y Datblygiad</u>

Codi gorsaf dal carbon ar ôl hylosgi, gorsaf bŵer a gwres gyfun, a chyfarpar a strwythurau cysylltiedig eraill. Gwaith dros dro a pharhaol sydd ei angen i hwyluso'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys mynedfeydd, draeniau, ardaloedd adeiladu dros dro, swyddfeydd safle, canolfan reoli, maes parcio, tirlunio, ardaloedd lliniaru bioamrywiaeth, a seilwaith ategol arall. Dymchwel strwythurau ac adeiladau presennol o fewn ffin y safle i hwyluso'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys un eiddo preswyl (Fferm Neuadd Padeswood), Neuadd Padeswood (adfail) ac adeiladau allanol.

(1) 1990 c. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o, a pharagraff 24 o Atodlen 6, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19). Trwy rinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Atodlen 11, a pharagraff 30 o Atodlen 11, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau hyn bellach yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

DRAFT